



**NOSON WOBRWYO
BUSNESAU**

Tref Caerfyrddin

Carmarthen Town

BUSINESS AWARDS

Categoriâu

Ffurflen Enwebu

Y Rheolau

CATEGORIÀU

Entrepreneur Ifanc

I bobl busnes o dan 31 oed (erbyn 1 Ionawr 2018) ac sydd wedi dangos llawer iawn o entrepreneuriaeth, creadigedd a gweledigaeth at y dyfodol. Bydd y beirniaid yn gobeithio dod o hyd i fusnes sydd wedi gosod ac wedi cyrraedd amcanion yn ei gynlluniau busnes ac wedi cyrraedd safle o broffidioldeb a llwyddiant cynaliadwy. Bydd y beirniaid am weld cyfraniad at ddwyieithrwydd neu ystyriaeth o ddwyieithrwydd yn y cwmni hefyd.

Lletygarwch

Bydd enillwyr y categori hwn yn gwneud popeth yn gywir o'r eiliad y mae'r cwsmer yn dod i gysylltiad tan iddo ffarwelio. Mae'r profiad lletygarwch cyffrous yn cael ei droi'n fythgofiadwy gan safon y gwasanaeth, y bwyd a'r gofal i gwsmeriaid. Ar ben hyn bydd angen i'r enillwyr ddangos tystiolaeth eu bod yn cefnogi cynnyrch lleol ac yn cyfrannu at ddwyieithrwydd neu'n ystyried dwyieithrwydd yn y busnes hefyd.

Arloesi

Gofynnir i'r cystadleuwyr ddangos sut mae'r busnes yn mynd ati i hybu creadigrwydd a syniadau newydd a sut mae gwybodaeth neu dechnoleg yn chwarae rhan bwysig yn y busnes. Bydd angen enghreifftiau o sut mae technolegau wedi caniatáu i'r busnes dyfu ac wedi bod o fudd ariannol iddo. Ar ben hyn bydd y beirniaid am weld cyfraniad at ddwyieithrwydd neu ystyriaeth o ddwyieithrwydd yn y cwmni hefyd.

Manwerthu

Mae gan dref Caerfyrddin hanes hir o fanwerthu a masnachu, a bydd y categori hwn yn dod o hyd i'r manwerthwr unigryw yn ardal y dref sy'n fodlon mynd y filltir ychwanegol. O ystyried dwyieithrwydd mewn gwasanaethau i gwsmeriaid, arddangosfeydd arloesol yn eu ffenestri, i sefydlu eu busnes fel aelod allweddol yn eu marchnad, bydd y categori hwn yn cydnabod yr arbenigrwydd hwn ar y lefel lleol iawn. Cydnabyddir safon uchel drwyddi draw ym mhob agwedd ar fanwerthu, ar y cyd â'r pethau ychwanegol fydd yn codi'r busnes dwyieithog hwn uwchlaw ei gystadleuwyr.

Annibynnol

Mae Caerfyrddin yn falch o'i siopau amrywiol a'i fanwerthwyr annibynnol eithriadol. P'un a ydych chi'n fusnes sy'n gwerthu cynnyrch lleol, yn gwerthu cynnyrch o safon sy'n addas i bob pced, neu'n darparu gwasanaeth sydd heb ei ail, bydd y sector hwn yn cydnabod y manwerthwr annibynnol gorau. Mae Caerfyrddin yn denu ystod amrywiol o'r cynhyrchion gorau a gwasanaethau gwerthfawr i'r dref, a bernir ymgeiswyr y categori hwn ar eu hymdrechion i farchnata a chynnal eu busnes yn ddwyieithog hefyd.

Cwmnïau cenedlaethol

Mae tref Caerfyrddin a'r ardal leol yn ymfalchïo yn eu gallu i gyrraedd y nod strategol ar lefel genedlaethol a lleol o ran masnach. Mae manwerthwyr cenedlaethol, sydd yn aml yn arwain y gad o ran tueddiadau manwerthu a chynnyrch pwrpasol, i'w cael ar bob stryd yn y dref. Bydd y panel beirniaid yn awyddus i weld sut mae'r cwmni wedi creu steil fusnes flaenllaw sy'n defnyddio gwybodaeth leol, ystyriaeth o ddwyieithrwydd a dealltwriaeth o leoliad masnachol unigryw Caerfyrddin.

Masnachwr Marchnad

Os oes gennych unrhyw gwestiwn neu ymholiad, ffoniwch Yr Atom 0300 323 1848
If you have any questions or queries please Email: busnesau.caerfyrddin@uwtsd.ac.uk or
angharad.harding@uwtsd.ac.uk

Mae statws Caerfyrddin fel tref farchnad bob amser yn ein hatgoffa am ein gwaddol amaethyddol anhygoel. Hyd y dydd hwn rydym yn darparu'r cynnyrch lleol gorau sy'n cael ei allforio i bedwar ban byd, ac mae llawer o'r bwyd a'r ddiod gwych yma'n cael ei werthu yn y farchnad ger Tŵr y Cloc. Boed teisennau lleol, nwyddau *vintage* neu hanfodion bob dydd, mae'r cyfan ar gael ym Marchnad Caerfyrddin. Mae'r gwasanaeth dwyieithog i gwsmeriaid, gwybodaeth lleol am y cynnyrch ac ysbryd y farchnad yn creu gwasanaeth arbennig iawn.

Elusen

Caiff y wobwr hon ei rhoi i fusnes neu sefydliad yn y trydydd sector sydd â nodau nid-er-elw pendant. Bydd y beirniaid yn ystyried sut mae'r busnes wedi bod yn eglur yn ei nodau a'i strategaeth, wedi hybu ei achos a'i fuddiolwyr yn effeithiol ac wedi dangos gwasanaeth rhagorol i'r cwsmeriaid yr un pryd â dangos twf a chynaliadwyedd fel sefydliad ers y dechrau.

Economi'r Nos

Dros y pum mlynedd diwethaf cafwyd newid o bwys yn economi'r nos yng Nghaerfyrddin. Mae angen inni gydnabod a dathlu'r dref liw nos. Mae'r wobwr hon yn agored i fariau, bwytai, tafarnau, clybiau, busnesau adloniant, cwmnïau diogelwch (drysorion) sy'n creu effaith ar economi'r dref. Bydd y beirniaid yn canolbwyntio ar ofal i'r cwsmeriaid, y gwasanaeth a roddir a thwf y busnes. Byddwn hefyd yn ystyried pwysigrwydd dwyieithrwydd yn y sector.

Proffesiynol

Mae Caerfyrddin yn falch bod gan y dref sector proffesiynol o bwys ac mae'r dref wedi gweld cynnydd sylweddol o ran y dewis o wasanaethau proffesiynol sydd ar gael. Rhaid i'r cystadleuwyr allu esbonio beth yw gwasanaeth eu busnes proffesiynol a dangos eu hymrwymiad i wasanaeth rhagorol i gwsmeriaid yn eu gwasanaeth penodol. Mae'r categori'n agored i fanciau, cyfreithwyr, cyfrifwyr, adnoddau dynol, recriwtio, cysylltiadau cyhoeddus, cyfathrebu, darparwr hyfforddiant a.y.y.b.

Twristiaeth

Mae tref Caerfyrddin yn leoliad sy'n denu twristiaid. Bydd y wobwr hon yn cydnabod rhagoraeth yn sector twristiaeth y dref. Yn ogystal a hyn yn arddangos a dathlu ei cyflawniadau. Mae'r categori yma yn agored i sefydliadau/busnesau sy'n gwneud effaith i'r economi, yr amgylchedd ac ar elfen gymdeithasol. Mae'r categori ar agor i fusnesau, cyflenwyr, gwestai, cyrchfannau a.y.y.b

- Sylwch y caiff pob cystadleuydd sgôr uwch drwy ddangos tystiolaeth o effaith ar yr economi lleol, e.e. creu swyddi a'u hymagwedd at ddwyieithrwydd. Gall pob cystadleuydd gyflwyno'i gynllun busnes os yw'n briodol ac unrhyw ddogfennau ategol eraill. Allwn ni ddim dychwelyd unrhyw ddogfennau ategol.
- Pob lwc a dewch inni i gyd dathlu campau busnesau tref Caerfyrddin!

Y WOBR

Er mwyn ymgeisio, rhaid i'r busnes fod wrthi'n masnachu yn nhref Caerfyrddin.

Y categori rydych yn ymgeisio ynddo:

EICH MANYLION | YOUR DETAILS:

Enw'r Cwmni <i>Company name</i>	
Cyfeiriad y Cwmni <i>Company Address</i>	
Cyfeiriad e-bost <i>Email address</i>	
Cyfeiriad eich Gwefan <i>Web site address</i>	
Rhif Ffôn <i>Telephone number</i>	
Sector Busnes <i>Business sector</i>	
Natur y Busnes <i>Nature of business</i>	
Eich prif gynnyrch/ gwasanaeth <i>Main product/service</i>	
Pwy yw eich cwsmeriaid? <i>Who are your customers?</i>	
Nifer a gyflogir <i>Number of employees</i>	
Statws cyfreithiol y cwmni <i>Legal Status of company</i>	

Os oes gennych unrhyw gwestiwn neu ymholiad, ffoniwch Yr Atom 0300 323 1848
If you have any questions or queries please Email: busnesau.caerfyrddin@uwtsd.ac.uk or
angharad.harding@uwtsd.ac.uk

Y dyddiad y dechreuodd y busnes fasnachu	
Manylion am y Gymraeg Welsh language information	

Y Gymraeg / Dwyieithrwydd

Oes gennych chi Bolisi Cymraeg?	
Ydych chi'n gwneud gwaith hyrwyddo dwyieithog yn y cwmni?	
Faint o aelodau staff sy'n siarad Cymraeg?	
Fyddech chi'n hoffi i staff Yr Atom helpu ynglŷn â'r Gymraeg?	
Ydych chi'n credu ei fod yn bwysig i'ch cwmni fod yn ddwyieithog? Os ydych, dwedwch pam.	
Fyddech chi'n ystyried dilyn cwrs Cymraeg?	

Datblygu'r Busnes

Os oes gennych unrhyw gwestiwn neu ymholiad, ffoniwch Yr Atom 0300 323 1848
If you have any questions or queries please Email: busnesau.caerfyrddin@uwtsd.ac.uk or
angharad.harding@uwtsd.ac.uk

Ydych chi wedi creu unrhyw swyddi yn y chwe mis diwethaf (nodwch ai swyddi rhan-amser neu swyddi amser-llawn)	
Ydych chi wedi buddsoddi arian yn eich safle a/neu eich offer yn y chwe mis diwethaf? Os ydych, nodwch faint.	
Os ydych wedi buddsoddi i ehangu'ch safle, nodwch faint o arwynebedd ychwanegol sydd wedi'i greu.	

(Cadwch eich ateb i 500 o eiriau neu lai.)

Edrychwch ar grynodedb y categori ac esboniwch yn eich geiriau eich hun sut mae'ch busnes chi'n ateb meini prawf eich categori



Rhaid anfon pob cynnig at:

Yr Atom

18 Stryd y Brenin

Caerfyrddin

SA31 1BN

Ffôn/Tel: 0300 3231848 E-bost/ E-mail: busnesau.caerfyrddin@uwtsd.ac.uk

Rhaid i bob cynnig gyrraedd erbyn 20 Medi 2018

Rhowch enw'r cwmni fel yr hoffech ei weld ar y dystysgrif, os byddwch yn digwydd ennill.

Arbedwch eich ffurflen ymgeisio yn electronig o dan yr enw

EICHCWMNI_CATEGORI.doc.

1. Rhowch y manylion ynglŷn â pham rydych chi'n cynnig am y wobr.

Dylech ddangos y canlynol (drwy roi enghreifftiau ymarferol o'r pwyntiau allweddol canlynol mewn ysgrifen)

- Beth sy'n unigryw a/neu yn arloesol ynglŷn â'ch busnes chi
- Enghreifftiau o'ch llwyddiant hyd yn hyn
- Disgrifiad o'ch twf

Sylwch: Dim ond hyd at dri busnes fydd ar y rhestr fer, a dewisir tri ar gyfer y rownd derfynol. I ddangos eich busnes chi i'w botensial llawn, gofalwch fod y ffurflen ymgeisio yn ymdrin â'r meini prawf yn llawn. Ar sail yr wybodaeth yn y ffurflen yn unig y bydd y rhestr fer yn cael ei chreu

Y RHEOLAU | THE RULES

Rheolau'r Gystadleuaeth:

1. Rhaid i bob cynnig a phob dogfen atodol gael eu cyflwyno ar-lein i angharad.harding@uwtsd.ac.uk
2. Mae'r gystadleuaeth yn agored i bob busnes yn nhref Caerfyrddin (cod post) a ddechreuodd eu busnes cyn mis Ionawr 2018
3. Mae'r gystadleuaeth ar gael yn rhad ac am ddim
4. Rhaid i'r cystadleuwyr fod yn unig fasnachwyr neu â llai na 250 o weithwyr adeg eu cais i'r gystadleuaeth
5. Chaiff noddwr ddim cystadlu am wobwr yn y categori y mae'n ei noddi
6. Mae gan bob categori ofynion gwahanol – i gael y rheolau penodol, gweler y gwobrau unigol
7. Dylai'ch sylwadau ar eich cais fod yn gywir hyd eithaf eich gwybodaeth
8. Cynrychiolwyr y noddwyr a Rhanbarth Bae Abertawe fydd y beirniaid
9. Mae'r beirniaid yn cadw'r hawl i symud eich cais i gategori arall neu i'ch ychwanegu chi i gategori arall
10. Mae penderfyniad y beirniaid yn derfynol
11. Drwy gystadlu am y gwobrau hyn, rydych yn cytuno y caiff Yr Atom a phartneriaid allweddol eraill a noddwyr weld eich manylion cysylltu
12. Os cân nhw eu cynnwys ar y rhestr fer, rhaid i'r cystadleuwyr fod ar gael ar gyfer ffilmio rhwng 1af a 9fed Hydref 2018
13. Drwy gystadlu am y gwobrau hyn, rydych yn cytuno i gymryd rhan mewn cyhoeddusrwydd ynglŷn â'r gwobrau gan gynnwys defnyddio unrhyw ddelweddau
14. Dim ond ar y ffurflen ymgeisio swyddogol y derbynir cynigion
15. Cewch gystadlu mewn mwy nag un categori. Rhaid cyflwyno pob cynnig ar ffurflen ar wahân.
16. Cyhoeddir yr enillwyr yn seremoni Gwobrau Busnes Tref Caerfyrddin ar y 9fed o Dachwedd yng ngwesty Llwyn Iorwg Caerfyrddin, a fydd yn ddigwyddiad tei du.
17. Bydd un enillydd a dwy gil-wobr.

Os cewch eich cynnwys ar y rhestr fer ar gyfer y rownd derfynol, byddwn yn cyhoeddi neu'n ffilmio cyflwyniad byr i'ch sefydliad.

Rwy'n datgan bod yr wybodaeth yn y cais hwn yn gywir a bod gen i'r awdurdod i gyflwyno'r cais ar ran y sefydliad uchod:

Llofnod: _____

Dyddiad: _____